OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 638

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010

## RHAN 1

CYFLWYNIAD

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 ac y maent yn dod i rym ar 12 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") i'w ddehongli yn y modd y dehonglir "school teacher" yn adran 122 o Ddeddf 2002;

mae i "awdurdod esgobaethol priodol" yr ystyr a roddir i "appropriate diocesan authority" yn adran 142(1) a (4) o Ddeddf 1998;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r awdurdod addysg lleol yng Nghymru sydd yn cynnal ysgol a gynhelir, neu sydd i gynnal ysgol arfaethedig; a phan fo ffederasiwn yn cynnwys ysgolion a gynhelir gan wahanol awdurdodau addysg lleol yng Nghymru, ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yw'r awdurdod addysg lleol sydd yn cynnal ysgol a gynhelir, neu sydd i gynnal ysgol arfaethedig;

ystyr "corff crefyddol priodol" ("*appropriate religious body*") mewn perthynas ag ysgol a ddynodir o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 yn un sydd o gymeriad crefyddol ac nad yw'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru na'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yw'r corff y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol mewn perthynas â'r grefydd neu'r enwad crefyddol y perthyn yr ysgol iddi neu iddo;

ystyr "corff llywodraethu" ("*governing body*") yw corff llywodraethu a ymgorfforwyd o dan adran 19(1) o Ddeddf 2002 neu o dan y Rheoliadau hyn fel y bo'n briodol;

ystyr "cyngor ysgol" ("*school council*") yw cyngor a sefydlwyd yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Cynghorau Ysgol;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996;

(**1**) 1996 p.56.
(**2**) 1998 p.31.

ystyr "diwrnod" ("*day*") yw diwrnod ysgol fel y'i diffinnir gan adran 579 o Ddeddf 1996;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, nac yn ddydd Sul nac yn ddiwrnod sydd yn ŵyl banc o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);

ystyr "y dyddiad ffedereiddio" ("*the federation date*") yw'r dyddiad pan fo cyrff llywodraethu yn ffedereiddio;

ystyr "pennaeth dros dro" ("*acting head teacher*") yw person a benodir i gyflawni swyddogaethau pennaeth yr ysgol hyd nes penodir pennaeth neu yn absenoldeb y pennaeth;

ystyr "y Rheoliadau Cynghorau Ysgol" ("*the School Council Regulations*") yw Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005(**4**);

ystyr "y Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir" ("*the Government of Maintained Schools Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**5**);

ystyr "y Rheoliadau Staffio" ("*the Staffing Regulations*") yw Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006(**6**);

ystyr "y Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd" ("*the New Maintained Schools Regulations*") yw Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005(**7**); ac y

mae i "ysgol newydd" ("*new school*") yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at—

(a) corff llywodraethu neu lywodraethwyr ysgol i'w ddehongli, mewn perthynas ag ysgol ffederal, fel cyfeiriad at gorff llywodraethu neu lywodraethwyr y ffederasiwn; a

(b) offeryn llywodraethu ysgol i'w ddehongli, mewn perthynas ag ysgol ffederal, fel cyfeiriad at offeryn llywodraethu y ffederasiwn.

(**3**) 1971 p.80.

(**4**) O.S. 2005/3200 (Cy.236).

(**5**) O.S. 2005/2914 (Cy.211) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (O.S.2005/3200 (Cy.236)); a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (O.S. 2006/873 (Cy.81)) a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/944 (Cy.80)), a chan Reoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy.206)).

(**6**) O.S. 2006/873 (Cy.81) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/944 (Cy.80)) a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009 (O.S. 2009/2708 (Cy.226)) a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3161 (Cy.275)).

(**7**) O.S. 2005/2912 (Cy.209).